

## PWYLLGOR SAFONAU

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2012

<b>YN BRESENNOL:</b>	Mr. Michael Wilson (Cadeirydd) Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd) Mr Raymond Evans
<b>WRTH LAW:</b>	Swyddog Monitro (LB)  Swyddog Pwyllgor (MEH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Dim.
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Neb.

#### 1 DATGANIAD O DDIDDRDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

#### 2 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghyd â phapurau cysylltiedig mewn perthynas â saith cais a dderbyniwyd gan aelodau Cyngor Tref Biwmares am ganiatâd arbennig i'w galluogi i gymryd rhan mewn perthynas â'r Parthau Cadwraeth Morol Arfaethedig.

Gwahoddwyd Clerc Cyngor Tref Biwmares i roi cyflwyniad ar ddechrau'r gwrandawriad ac i egluro'r mater oedd dan ystyriaeth.

Dyweddodd yr Athro T. W. Ashenden bod Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ynglŷn â chynigion i ddynodi nifer o Barthau Cadwraeth Morol a warchodir i lefel uchel yng Nghymru gyda dau safle posibl yn ardal Biwmares. Os cânt eu dynodi, bydd cyfyngiadau'n cael eu pennu i ddiogelu bywyd morol yr ardal fydd yn cynnwys cyfyngiadau ar gynnal a chadw bwiau a marcwyr mordwyo, gwaharddiad ar bysgota o gygod ac oddi ar y lan, gwaharddiad ar angori, rheolau ar adeiladu a chynnal a chadw'r amddiffynfeydd môr, rheolau ynglŷn â gollyngiadau ac arllwysfeydd y tu mewn a'r tu allan i'r parth a mynediad i'r traeth a'r parth rhynglanw. Dywedodd ymhellach y gellid gosod gwaharddiad ar y cyhoedd rhag mwynhau gweithgareddau hamdden ar y traeth ym Miwmares. Gellid hefyd gosod cyfyngiadau ar deithiau hwylio cychod pleser o Fiwmares i Ynys Seiriol.

Dyweddodd yr Athro Ashenden bod trigolion a pherchnogion busnesau lleol ym Miwmares yn hynod o bryderus ynglŷn â'r effaith debygol ar y dref. Fe allai colli referniw o dwristiaeth gael effaith niweidiol ar yr ardal gyda phosibilrwydd o golli gwaith a referniw yn nhref Biwmares.

Mae yna 14 o Aelodau ar Gyngor Tref Biwmares ac oherwydd bod yn rhaid i 7 Aelod ddatgan diddordeb, ystyriwyd bod cynnal trafodaeth lawn ar fater mor bwysig yn rhywbeth amhosibl. Pe bai Aelodau yn methu mynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref am unrhyw reswm, ni fyddai cworwm yn y cyfarfod.

Dyweddodd y Clerc ymhellach bod y ceisiadau am ganiatâd arbennig wedi eu categorio i wahanol gategoriâu. Mae 4 o'r ceisiadau yn ddiddordebau hamdden syml yn ardal Biwmares gyda'r 3 arall yn ddiddordebau masnachol ac ariannol.

Rhodddwyd cyfle i Aelodau'r Panel holi Clerc y Cyngor Tref ynglŷn â rhai materion penodol :-

- Erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Cyngor Tref ymateb i'r cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r Parthau Cadwraeth Morol? Dywedodd y Clerc bod ymateb drafft wedi ei lunio gan fod angen ymateb erbyn 31 Gorffennaf 2012. Y gobaith oedd y gellid cynnal trafodaethau ehangach gyda thrigolion y dref ac y byddai'r caniatâd arbennig yn caniatáu i'r saith Cynghorydd Tref drafod ac asesu safbwynt y trigolion lleol. Ar hyn o bryd, mae ganddynt ddi-ddordeb sy'n rhagfarnu.
- Rhagwelwyd y byddai ymgynghori pellach yn dechrau y tu hwnt i oes y Cyngor Tref cyfredol. Dywedodd y Clerc bod y flwyddyn 2014 wedi'i grybwyll ar gyfer penderfyniad ynglŷn â'r Parth Cadwraeth Morol ym Miwmares ac fe fyddai'r caniatâd arbennig yn parhau am holl gyfnod aelodau presennol y Cyngor Tref ac i ddiwedd cyfnod 4 blynedd yr aelodau newydd o'r Cyngor Tref yn dilyn yr etholiadau Cyngor Tref/Cymuned fis Mai nesaf.
- Pa effaith fyddai'n ei gael ar gredinedd y Cyngor Tref pe bai'r caniatadau arbennig yn cael eu gwrthod? Dywedodd y Clerc bod Aelodau'r cyhoedd wedi bod yn mynd at y 7 Cynghorydd Tref sydd wedi gwneud y cais am ganiatâd arbennig ac yn gofyn iddynt beth yw eu barn ynglŷn â'r bwriad i sefydlu Parth Cadwraeth Morol oherwydd eu bod yn gwybod bod ganddynt arbenigedd o fewn y maes penodol hwn. Mae'r Aelodau hyn yn gorfod ymateb a dweud nad ydynt yn gallu trafod y mater gyda hwy ar hyn o bryd ac o'r herwydd, yn methu â chyflawni eu swyddogaethau fel Cynghorwyr Tref.

---

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gwahodd y Cynghorydd C. Theakston (un o'r ymgeiswyr) i annerch y Panel ac i egluro paham y dylid rhoddi caniatâd arbennig iddo.

Dywedodd y Cynghorydd Theakston – y byddai'r Parth Cadwraeth Morol yn cael effaith fawr iawn ar Dref Biwmares petai'n cael ei ganiatáu. Mae gan bawb yn nhref Biwmares ddi-ddordeb i ryw raddau gan fod twristiaeth yn cael effaith fawr ar fywyd y dref. Ei ddi-ddordeb ef yw pysgota yn yr ardal yn bennaf i bwrpasau hamdden.

Rhodddwyd cyfle i Aelodau'r Panel ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Theakston :-

- Paham roedd y Cynghorydd Theakston yn ystyried fod ganddo ddi-ddordeb personol ac un oedd yn rhagfarnu? Dywedodd y Cynghorydd Theakston ei fod yn byw ger Afon Menai a bod ganddo gaiac pysgota. Diddordeb hamdden llwyr ydoedd, ond un sydd yn bwysig iawn iddo ef.
- Pa ganran o boblogaeth Biwmares fyddai'n rhannu eich diddordeb? Dywedodd y Cynghorydd Theakston bod Biwmares yn denu hwylio, pysgota ac ati ac y byddai canran uchel gyda rhyw fath o ddi-ddordeb mewn mwynhau gweithgareddau ar y dŵr o amgylch Biwmares neu ddi-ddordeb busnes yn codi o'r gweithgareddau.
- Oes yna lais ym Miwmares sydd o blaid yr Ardal Gadwraeth? Dywedodd y Cynghorydd Theakston nad oedd neb wedi siarad o blaid yr Ardal Gadwraeth mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarfod wedi cael cyhoeddusrwydd gan y trefnwyr ond roedd presenoldeb da o blith pobl y dref.

Neilltuodd y Panel i sesiwn breifat.

---

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gwahodd y Cynghorydd Jason Zalot (ymgeisydd arall) i annerch y Panel i egluro paham y dylai gael caniatâd arbennig.

Dywedodd y Cynghorydd Jason Zalot bod trigolion Biwmares yn gwybod ei fod wedi tyfu i fyny o amgylch y môr ym Miwmares. Gyda'r Ardaloedd Cadwraeth Morol gwarchodaeth lefel uchel arfaethedig, roedd llawer o bobl nad oeddent yn ymwybodol o'r goblygiadau technegol. Nododd ei fod ef yn ymwybodol o'r holl faterion a godwyd yn y dogfennau Cadwraeth Morol ac yr oedd trigolion lleol Biwmares yn disgwyl i rywun fel ef (gyda'i wybodaeth a'i brofiad ef o'r môr) allu mynegi ei safbwynt o fewn y broses ymgynghori. Oherwydd ei ddi-ddordebau busnes, nid oedd yn gallu defnyddio ei arbenigedd yn y mater penodol hwn a dyma'r rheswm paham y gwnaed y cais am ganiatâd arbennig.

Rhodddwyd cyfle i aelodau'r Panel ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Zalot :-

- Pa bryd fyddai'r Parth yn dod i rym? Dywedodd y Cynghorydd Zalot bod Cyfnod 1 y broses ymgynghori yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Dywedodd bod yn rhaid cwblhau 3 Chyfnod cyn y penderfyniad terfynol. Roedd Cyfnod 1 y broses ar gyfer asesu'r effaith fyddai Ardal Gadwraeth yn ei chael ar ardal Biwmares. Rhagwelir y bydd Cyfnod 2 y cyfnod ymgynghori yn dechrau ym mis Ionawr

2013. Roedd y Cynghorydd Zalot yn credu y byddai'r penderfyniad terfynol ar yr Ardal Gadwraeth Forol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2014 i 2015.

- Pe bai'r cynnig fel y mae ar hyn o bryd yn mynd drwodd, beth fyddai'r effaith andwyol ar ei fusnes? Dywedodd y Cynghorydd Zalot y byddai'n cael effaith ar gychod pysgota a phleser. Roedd Llywodraeth Cymru i'w gweld fel petai'n credu y byddai'r Parth Cadwraeth yn cryfhau busnesau ond nid oedd ef yn siŵr o hynny ac ni allai ei feintoli.
- A yw'n wir dweud bod y Parth Cadwraeth Morol yn ymestyn nid yn unig at linell y dŵr, ond at yr arfordir hefyd? Dywedodd y Cynghorydd Zalot bod posibilrwydd y gallai'r parth rwystro pobl rhag defnyddio'r traeth ar gyfer gweithgareddau hamdden h.y. plant yn chwarae mewn pyllau ar y creigiau a physgota amser hamdden.
- A oes yna unrhyw Barth Cadwraeth Morol arall yng Nghymru? Dywedodd y Cynghorydd Zalot nad oes yna unrhyw Ardal Gadwraeth debyg yng Nghymru. Cyfeiriodd fodd bynnag at yr Ynys Wair ond nid yw hwn yn barth gwarchodaeth uchel. Mae niferoedd y cimychiaid wedi disgyn ger Ynys Wair ond maent wedi cynyddu o ran eu maint ac maent yn ymosod ar y pysgod cregyn yn yr ardal. Dywedodd ymhellach fod y cynnig ar gyfer ardal Biwmares yn un am Barth Cadwraeth Morol sydd â Gwarchodaeth lefel uchel, dynodiad sydd yn fwy llym. Ar hyn o bryd, mae ardal Biwmares yn ardal forol gynaliadwy a chydabyddir ei bod yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda.
- Faint o bobl fusnes arall ym Miwmares fyddai'n cael eu heffeithio? Dywedodd y Cynghorydd Zalot i astudiaeth gael ei chynnal a oedd yn rhagweld colled o £2.5m i'r economi leol ym Miwmares. Bydd hyn yn effeithio ar lawer yn y gymuned. Gofynnwyd cwestiynau i'r Cynghorydd Zalot - gan na allai feintoli'r effaith bosibl ar ei fusnes ei hun, sut gallai gyfiawnhau'r ffigwr o £2.5m o golled debygol i'r dref? Dywedodd y Cynghorydd Zalot bod yr astudiaeth wedi dweud y byddai 20-25% o effaith ar fusnesau lleol.
- Faint o bobl eraill sydd yn gweithio mewn maes tebyg? Dywedodd y Cynghorydd Zalot y byddai gweithredwyr cychod yng Nghonwy'n cael eu heffeithio gan eu bod yn teithio i lawr Afon Menai. Bydd gweithredwyr cychod yn Amlwch yn cael eu heffeithio. Mynegodd y gallai tua 300 i 400 o bobl gael eu heffeithio'n uniongyrchol.
- Pa effaith fyddai'r Ardal Gadwraeth yn ei gael ar fordeithio'r sianel dwr dwfn a theithiau pleser? Dywedodd y Cynghorydd Zalot y byddai'n cael effaith andwyol ar deithiau pleser o amgylch yr Ynys ac y gallai roi terfyn arnynt yn gyfan gwbl.

Gofynnodd y Swyddog Monitro gwestiynau i Glerc Cyngor Tref Biwmares ynglŷn â chanran preswylwyr Biwmares sydd yn dibynnu'n uniongyrchol ar gael mynediad i'r môr ar gyfer eu bywoliaeth ac a fyddai'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y Parth Cadwraeth Morol. Dywedodd yr Athro Ashenden y byddai 28% o breswylwyr y dref (busnesau lletygarwch ac adwerthu) sy'n cyfateb i oddeutu 140 o swyddi. Byddai twristiaid yn rhoi'r gorau i ymweld â'r dref a byddai hyn yn cael effaith andwyol ar gyflogaeth yn yr ardal. Fe allai busnesau roi'r gorau i fasnachu ac mae'n bosibl y byddai siopau gwag ym Miwmares ar ôl hynny.

Neilltuodd y Panel i sesiwn breifat.

Wedi i'r Panel ddychwelyd i sesiwn gyhoeddus, roedd y caniatadau arbennig a roddwyd fel a ganlyn :-

#### **Categori 1**

**Y Cynghorydd C. Theakston**  
**Y Cynghorydd R. L. Roberts**  
**Y Cynghorydd Ian Davies**  
**Y Cynghorydd D. Gallichan**

**Rhoddyd caniatadau arbennig dan Adran 2(a), (d), (e) ac (f) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatadau Arbennig) (Cymru) 2001.**

Ym mhob achos, mae'r caniatâd arbennig yn ymestyn i siarad a phleidleisio a byddant yn dod i ben ar y diwrnod olaf o 2015.

## Categori 2

Y Cynghorydd J. W. Jones  
Y Cynghorydd J. Zalot  
Y Cynghorydd S. Zalot

Rhoddwyd caniatadau arbennig ym mhob achos dan Adran 2(a), (e) ac (f), ond mae'r caniatâd wedi'i gyfyngu i'r hawl i siarad ond nid i bleidleisio. Byddwch yn gwerthfawrogi bod y gwahaniaeth yn ymwneud â diddordeb ariannol uniongyrchol / anuniongyrchol yr ymgeiswyr hyn, sydd ym marn y Panel, yn rhwystro iddynt roi'r caniatâd dan bennawd 2(d).

Bydd y caniatadau arbennig hyn hefyd yn parhau hyd ddiwrnod olaf 2015.

Yn y ddau gategori, gofynnodd y Panel am iddo gael ei wneud yn glir i'r ymgeiswyr bod y caniatadau arbennig yn ymwneud yn unig â'r diddordebau a ddisgrifir yn eu ceisiadau a, lle bo hynny'n berthnasol, yn eu tystiolaeth i'r Panel. Pe bai diddordebau gwahanol neu ychwanegol yn dod i'r amlwg, yna byddai'n rhaid gwneud ceisiadau ar wahân. Roedd y Panel hefyd yn dymuno cadarnhau nad oes ganddo unrhyw bwerau i roi caniatâd arbennig yn erbyn rhag-benderfynu a thra bo'r Cyngor Tref wedi ffurfio barn gychwynnol ar y prif fater, mae'n ddiâu y bydd yn rhoddi ystyriaeth deg a chywir i bob barn a thystiolaeth wrth i'r rhain esblygu yn ystod proses sy'n debyg o fod yn un pur faith.

MR. M. WILSON

CADEIRYDD